Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Diwygiadau i Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014: asesiad effaith integredig

Sut bydd newidiadau i'r rheoliadau i adlewyrchu statws mewnfudo dioddefwyr caethwasiaeth neu fasnachu pobl, a'u hawl i fanteisio ar gymorth tai a digartrefedd, yn effeithio ar nifer o feysydd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 23 Ionawr 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 2 Chwefror 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-dyrannu-tai-digartrefedd-cymhwystra-cymru-2014-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

## Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut rydych wedi cymhwyso / y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 at y camau gweithredu arfaethedig, drwy gydol y cylch polisi a chyflawni?

Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu math newydd o ganiatâd dros dro i aros yn y DU ar gyfer dioddefwyr caethwasiaeth neu'r fasnach mewn pobl, a elwir yn 'ganiatâd dros dro i aros', drwy adran 65 o Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022**[1]**. Bydd y newid hwn yn sicrhau bod y DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol o dan Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl (ECAT)**[2]**, yn arbennig sut mae'n berthnasol i'r gwaith o adnabod a chefnogi dioddefwyr. Mae adran 65 o Ddeddf 2022 wedi'i drafftio mewn ffordd debyg i destun Erthygl 14 o ECAT, gyda chaniatâd dros dro i aros ar gael at y dibenion canlynol:

- helpu'r unigolyn i ddod dros unrhyw niwed corfforol neu seicoleg a achoswyd drwy gam-fanteisio arno;
- galluogi'r unigolyn i geisio iawndal am fod eraill wedi cam-fanteisio arno, neu
- galluogi'r ymgeisydd i gydweithredu ag awdurdod lleol mewn cysylltiad ag ymchwiliad neu achos troseddol mewn perthynas â'r cam-fanteisio arno.

Ar hyn o bryd, gall dioddefwyr caethwasiaeth a'r fasnach mewn pobl gael tai a chymorth tai drwy bwerau disgresiynol (caniatâd y tu allan i'r rheolau) a roddir gan y Swyddfa Gartref, gyda llawer yn byw mewn llochesi a mathau tebyg o dai dros dro. Bydd y caniatâd dros dro i aros yn disodli'r defnydd o bwerau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-dyrannu-tai-digartrefedd-cymhwystra-cymru-2014-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

disgresiynol ar gyfer dioddefwyr caethwasiaeth a'r fasnach mewn pobl fel bod caniatâd yn cael ei roi o fewn y Rheolau Mewnfudo yn hytrach na'r tu allan iddynt. Mae'r Swyddfa Gartref yn amcangyfrif nad oes gan tua 28% o oedolion sy'n ddioddefwyr unrhyw statws mewnfudo cyn iddynt gael cymorth drwy'r Contract Gofalu am Ddioddefwyr Caethwasiaeth Fodern**[3]**, o dan y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol**[4]**.

Bydd y caniatâd dros dro i aros, y disgwylir iddo ddechrau o 30 Ionawr 2023 ymlaen, yn caniatáu i unigolion aros yn y DU am 30 mis neu am 12 mis yn achos y rhai sy'n ceisio iawndal, ac yn rhoi hawl i'r rhai sy'n cael penderfyniad cadarnhaol 'Ar Seiliau Terfynol' gael cyllid cyhoeddus**[5]** (mae'r hawl i gael cyllid cyhoeddus yn ofyniad statudol ar gyfer cymorth tai). Y tu hwnt i gyfnod y caniatâd dros dro i aros, gall unigolyn wneud cais am estyniad os bydd angen caniatâd arno o hyd i aros yn y DU neu wneud cais am ganiatâd i aros mewn categori arall, os bydd un yn briodol, megis categori sy'n ymwneud â bywyd teuluol neu breifat. Fodd bynnag, os na fydd yr un o'r opsiynau hyn yn gymwys, mae'r Swyddfa Gartref yn disgwyl iddo adael y DU am nad yw'r caniatâd dros dro i aros yn cael ei ystyried yn llwybr at ymsefydlu'n barhaol yn y DU.

Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 ["Rheoliadau 2014"] yn penderfynu ar gymhwystra pobl sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo i gael tai a chymorth tai. Oni chaiff Rheoliadau 2014 eu diwygio, ni fydd pobl sy'n gymwys i gael caniatâd dros dro i aros yn gymwys i gael tai na chymorth tai yng Nghymru.

Os na chaiff Rheoliadau 2014 eu diwygio, gallai niweidio buddiannau grŵp o bobl ag anghenion cymorth sylweddol iawn sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd. Er bod y Swyddfa Gartref yn caniatáu i ddioddefwyr caethwasiaeth a masnachu mewn pobl gael eu lletya neu gael cynnig cymorth tai y tu allan i'r rheolau ar hyn o bryd, daw hyn i ben o 31 Ionawr 2023 ymlaen ar ôl i'r caniatâd dros dro i aros ddod i rym.

Yn ogystal â'r angen ymarferol i gysoni'r rheolau tai yng Nghymru â'r newidiadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-dyrannu-tai-digartrefedd-cymhwystra-cymru-2014-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

a wnaed i'r Rheolau Mewnfudo gan Lywodraeth y DU, ceir dadleuon cymhellol hefyd o blaid rhoi hawl i ymgeiswyr sy'n ceisio caniatâd dros dro i aros gael tai a chymorth tai yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang ac fel cenedl noddfa, drwy ei Strategaeth Ryngwladol.

Nid ydym yn rhagweld y bydd y caniatâd dros dro i aros yn rhoi baich ychwanegol ar allu awdurdodau lleol i gynnig llety, am fod gan y categori newydd o bobl hawl i aros dros dro yn y DU ar hyn o bryd.

# Casgliad

## Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi helpu i'w ddatblygu?

Am fod y caniatâd dros dro i aros yn deillio o bolisi a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU (mewnfudo), ni fyddai'n bosibl cynnal ymgynghoriad ystyrlon ar ddulliau gweithredu amgen, am mai effaith y cynnig yw cysoni cyfraith tai Cymru a chyfraith mewnfudo.

## Pa effeithiau, yn gadarnhaol ac yn negyddol, fu'r rhai mwyaf arwyddocaol?

### Effeithiau cadarnhaol

Bydd ymestyn hawliau cymhwystra pobl sy'n dod i Gymru drwy lwybr mewnfudo'r caniatâd dros dro i aros, i gael tai a chymorth tai, yn helpu i ddiogelu'r unigolion hyn rhag y bygythiad o ddigartrefedd a'r effaith niweidiol y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-dyrannu-tai-digartrefedd-cymhwystra-cymru-2014-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gall hynny ei chael ar eu llesiant personol. Bydd y cynnig yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddangos ei dyheadau o ran bod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang a'i hymrwymiad i hawliau dynol ac i hyrwyddo heddwch.

## Effeithiau negyddol

Ni fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod llety digonol a chartrefi tymor hwy ar gael i'r rhai yr effeithir arnynt yn ogystal â'r rhai sydd mewn llety dros dro ac yn ceisio cartrefi priodol a fforddiadwy ar hyn o bryd.

Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Cartrefi o ansawdd da yw conglfaen cymunedau bywiog a chydlynus ac maent yn darparu sylfaen i unigolion ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywydau. Bydd cael tai diogel a fforddiadwy yn sicrhau bod unigolion sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu a'u bod yn fwy abl i ffynnu yng Nghymru.

Bydd y newidiadau arfaethedig a gyflawnir drwy'r cynnig hwn yn sicrhau y gall pobl sy'n dod i Gymru drwy lwybr mewnfudo'r caniatâd dros dro i aros geisio tai neu gymorth tai a fydd, yn ei dro, yn eu galluogi i ymsefydlu'n haws a chyfrannu at gyflawni uchelgeisiau'r saith nod llesiant.

Er y gall rhai unigolion gael llety dros dro a ddarperir drwy wasanaethau digartrefedd, mae heriau yn gysylltiedig â'r math hwn o lety ac efallai na fydd yn dod â sefydlogrwydd na diogelwch i fywydau pobl sydd â chaniatâd dros dro i aros, a allai gael budd o opsiwn tymor hwy. Hefyd, efallai na fydd rhai mathau o lety dros dro yn briodol am y gallai olygu byw yn agos at bobl sydd â bywydau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-dyrannu-tai-digartrefedd-cymhwystra-cymru-2014-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

di-drefn neu broblemau iechyd meddwl/camddefnyddio sylweddau neu gyda phobl o'r fath. O ystyried y trawma y bydd llawer o bobl â chaniatâd dros dro i aros wedi'i brofi, efallai na fydd llety dros dro a ddarperir drwy wasanaethau digartrefedd yn briodol nac yn ddigonol i rai unigolion. Er y dylid cydnabod nad yw caniatâd dros dro i aros yn llwybr i ymsefydlu'n barhaol yn y DU a bod llety a chymorth arbenigol ar gael yng Nghymru drwy Bawso.

## Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?

Caiff y Rheoliadau a gyflwynir o dan y cynnig hwn eu hadolygu'n rheolaidd yn y ffordd arferol. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro unrhyw effeithiau andwyol y cânt eu hysbysu amdanynt gan awdurdodau lleol neu sefydliadau yn y Trydydd Sector sy'n ymdrin â phobl sy'n dod i Gymru drwy lwybr caniatâd dros dro i aros y mae angen tai neu gymorth tai arnynt.

# Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant


Rhaid i **bob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael ei anfon i flwch post **CRIA@gov.wales**

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Phrotocolau Dewisol** wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

*Noder bod gennym Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant sefydledig, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad drafft o'r Effaith ar Hawliau Plant. Cysylltwch â'r Gangen Blant* ***CRIA@gov.wales*** *i gael rhagor o wybodaeth.*

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-dyrannu-tai-digartrefedd-cymhwystra-cymru-2014-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Proses Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio er mwyn helpu Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant yn eu prosesau gwneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor Gweinidogion a rhaid iddo gael ei gwblhau cyn i benderfyniad Gweinidogol gael ei wneud. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid i'ch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael ei gyhoeddi hefyd.




*Am ragor o gyngor ac arweiniad ar broses Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant, gweler **Llawlyfr i Staff ar Hawliau Plant** neu cysylltwch â'r Gangen Blant **CRIA@gov.wales***

1. **Amcanion polisi**

- Effaith pa benderfyniad sy'n cael ei hasesu gennych?

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-dyrannu-tai-digartrefedd-cymhwystra-cymru-2014-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae a wnelo'r penderfyniad perthnasol â diwygio rheoliadau cymhwystra er mwyn galluogi pobl sy'n gymwys i gael caniatâd dros dro i aros am eu bod wedi profi caethwasiaeth neu fasnachu mewn pobl gael tai a chymorth tai. Mae cynnig i ddiwygio cyfraith tai yng Nghymru yn adlewyrchu'r angen i sicrhau cydymffurfiaeth â mater polisi a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU (mewnfudo).

2. **Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc**

- Pa waith ymchwil a data ar blant a phobl ifanc sydd eisoes ar gael i lywio eich polisi penodol? Mae'n bosibl y bydd eich amcan polisi yn effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau â thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith gan sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.
- Gan ddefnyddio’r gwaith ymchwil hwn, sut rydych yn rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar grwpiau gwahanol**[6]** o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.
- Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc rydych wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant na phobl ifanc, esboniwch pam.**[7]**

*I gael cyngor ar waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc, cysylltwch â'r Gangen Blant. Mae gennym gydberthynas sefydledig â Plant yng Nghymru, a allai eich helpu i weithio gyda phlant a phobl ifanc drwy ei raglen Cymru Ifanc.*

Prin yw'r data ar blant a phobl ifanc y bydd y cynnig yn effeithio arnynt. Dim ond ar nifer bychan yn unig y bydd yn effeithio yn y DU ac mae'n bosibl na fydd yn effeithio ar ddim un yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd y cynnig yn sicrhau bod teuluoedd plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn gymwys i gael tai. O ystyried y nifer bach o blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt ac am fod y polisi sy'n sail i'r cynnig yn fater a gedwir yn ôl, ni fwriedir gwneud unrhyw waith cyfranogol gyda phlant na phobl ifanc.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-dyrannu-tai-digartrefedd-cymhwystra-cymru-2014-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

3. **Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth rydych wedi'i chasglu, pa effaith y mae eich polisi yn debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd y diwygiadau yn ei gwneud yn haws i deuluoedd sy'n cyrraedd Cymru y rhoddwyd caniatâd dros dro i aros iddynt, gael tenantiaeth a symud rhwng eiddo. Drwy allu symud yn haws i mewn i'r sector tai cymdeithasol ac o fewn y sector hwnnw, efallai y bydd rhieni yn fwy abl i ganfod a sicrhau eiddo sy'n ddigonol i ddiwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu teulu yn gyffredinol. Bydd y ffactorau a ystyrir ganddynt wrth symud yn cynnwys mynediad at amgylchedd glân a diogel, yn ogystal â sicrhau bod safon byw yn eu heiddo newydd yn ddigon da i ddiwallu anghenion corfforol a meddyliol y teulu cyfan.

Mae'n bosibl y bydd rhai teuluoedd sy'n cael budd o'r Rheoliadau yn cynnwys plant sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod neu sydd wedi bod yn byw mewn tlodi. Dylai symleiddio'r dull i deuluoedd plant ddod yn gymwys i gael tai a chymorth tai gael effaith gadarnhaol ar eu bywydau.

- Sut y bydd eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Edrychwch ar yr **erthyglau** i weld pa rai sy'n gymwys i'ch polisi eich hun.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-dyrannu-tai-digartrefedd-cymhwystra-cymru-2014-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Sut y bydd eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant

| Erthyglau neu Brotocolau Dewisol CCUHP | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 24 (Iechyd a gwasanaethau iechyd):** Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da - y gofal iechyd gorau posibl - ac i ddŵr glân, bwyd maethlon, amgylchedd glân a diogel a gwybodaeth i'w helpu i gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | X | | Drwy roi'r hawl i deuluoedd plant wneud cais am dai a chymorth tai, gall y plant hynny fyw mewn amgylchedd diogel. |
| **Erthygl 27 (Safon byw ddigonol):** Mae gan blant yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai llywodraethau helpu rhieni a gwarcheidwaid na allant fforddio darparu hyn, yn arbennig mewn perthynas â bwyd, dillad a thai. | X | | Bydd y cynnig yn ei gwneud yn haws i blant sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau hyn gael cymorth i ddod o hyd i gartref yng Nghymru a byw ynddo. Gyda'r hawliau a ddarperir gan y cynnig, byddant yn gallu cael bywyd o ansawdd gwell na fyddai, fel arall, wedi bod yn bosibl. |

- Ystyriwch a oes unrhyw hawliau sydd gan Ddinasyddion yr UE (fel y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-dyrannu-tai-digartrefedd-cymhwystra-cymru-2014-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ddim yn gymwys.

*I gael rhagor o wybodaeth am* ***CCUHP*** *a'i Brotocolau Dewisol, ewch i'r* ***Dudalen ar Hawliau Plant ar y fewnrwyd****.*

4. **Cyngor a phenderfyniad gweinidogol**

- Sut y bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau yn llywio eich cyngor gweinidogol?

Caiff y dadansoddiad yn yr asesiad hwn ei adlewyrchu yn y cyngor a ddilynir gan y Gweinidog wrth gyflwyno'r rheoliadau diwygio hyn.

5. **Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

Cyhoeddir yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru ynghyd â'r Asesiad Effaith Integredig.

*I gael rhagor o wybodaeth a chymorth ar y broses hon, ewch i'r* ***Dudalen ar Hawliau Plant ar y Fewnrwyd*** *sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau.*

6. **Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

- Os ydych wedi ceisio barn plant a phobl ar eich cynnig, sut y byddwch yn eu hysbysu am y canlyniad.

Gan fod y caniatâd dros dro i aros yn deillio o bolisi a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU (mewnfudo), ni fyddai'n bosibl cynnal ymgynghoriad ystyrlon ar ddulliau gweithredu amgen, am mai effaith y cynnig yw cysoni cyfraith tai Cymru a chyfraith mewnfudo.

*Os bydd eich polisi yn effeithio ar blant a phobl ifanc, cofiwch lunio fersiynau addas i blant o unrhyw ddogfen gyhoeddus sy'n ymwneud â'ch cynnig. Cysylltwch â'r Gangen Blant i gael rhagor o gyngor.*

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-dyrannu-tai-digartrefedd-cymhwystra-cymru-2014-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## 7. **Monitro ac Adolygu**

Mae'n hanfodol ailedrych ar eich Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant i weld a gafodd cynigion yr effeithiau a nodwyd gennych yn wreiddiol ac a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Pan fyddwch yn cyflwyno is-ddeddfwriaeth, ni fydd yn ddigon dibynnu ar yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol; bydd angen ichi ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant er mwyn ystyried sut y gallai manylion y cynigion yn y rheoliadau neu'r canllawiau effeithio ar blant.

Gall yr arweinydd polisi ailedrych ar y fersiwn gyhoeddedig o'i Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, ei ailenwi fel adolygiad o'r Asesiad gwreiddiol o'r Effaith ar Hawliau Plan a diweddaru'r dystiolaeth o'r effaith. Dylid cyflwyno'r asesiad effaith a adolygwyd i Weinidogion gydag unrhyw gynigion i ddiwygio'r polisi, yr arfer neu'r canllawiau. Dylid cyhoeddi'r fersiwn wedi'i hadolygu hon o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

- Nodwch pa fecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith er mwyn adolygu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.
- Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes unrhyw ddiwygiadau sydd angen eu gwneud i'r polisi neu'r ffordd y caiff ei roi ar waith.

Am fod y caniatâd dros dro i aros yn deillio o bolisi a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU (mewnfudo) ni fydd yn bosibl diwygio'r polisi na'r ffordd y caiff ei roi ar waith mewn unrhyw ffordd ystyrlon am mai'r bwriad fydd cysoni cyfraith tai Cymru a chyfraith mewnfudo. Fodd bynnag, byddwn yn ymgysylltu â chydweithwyr yn y Swyddfa Gartref os byddwn yn dod yn ymwybodol o ganlyniadau anfwriadol posibl sy'n niweidiol i blant a phobl ifanc.

**[1] Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 (legislation.gov.uk)**

**[2] Rhestr lawn (coe.int)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-dyrannu-tai-digartrefedd-cymhwystra-cymru-2014-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

[3] modern slavery statutory guidance, non statutory guidance v2.11 (publishing.service.gov.uk)

[4] National referral mechanism guidance: adult (England and Wales) - GOV.UK (www.gov.uk) - y fframwaith ar gyfer adnabod ac atgyfeirio dioddefwyr posibl caethwasiaeth a sicrhau eu bod yn cael y cymorth priodol

[5] Ystyr “penderfyniad cadarnhaol ar seiliau terfynol” yw penderfyniad a wneir gan awdurdod cymwys (sef cyrff y Swyddfa Gartref) fod unigolyn yn ddioddefwr caethwasiaeth neu'r fasnach mewn pobl.

[6]Gallwch ystyried, er enghraifft, sut y byddai eich polisi yn effeithio ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc mewn ffyrdd gwahanol: blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc; plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant anabl; plant sy'n byw mewn tlodi; plant Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; mudwyr; ceiswyr lloches; ffoaduriaid; siaradwyr Cymraeg; plant sydd â phrofiad o ofal; plant LHDTC+. Noder nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr ac, yn y carfanau hyn, na fydd un profiad homogenaidd.

[7] Mae Erthygl 12 o CCUHP yn nodi bod gan blant hawl i fynegi eu barn, yn enwedig pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnynt, ac i’w barn gael ei hystyried.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein datganiad hygyrchedd i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i https://www.llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-dyrannu-tai-digartrefedd-cymhwystra-cymru-2014-asesiad-effaith-integredig-0 i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am hawlfraint.